

Dechrau Da
Bookstart
BookTrust Cymru

# Yn Cyflwyno Dechrau Da

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Ynglŷn â Dechrau Da

- Mae Dechrau Da ar gael i **bob plentyn** yng Nghymru.
- Mae Dechrau Da yn annog teuluoedd i rannu a mwynhau llyfrau, straeon a rhigymau o'r ychydig fisoedd cyntaf mewn bywyd a gydol y blynyddoedd cynnar.
- Gwneir rhodd o becynnau Dechrau Da Babi yn 6 mis oed, a'r bwriad yw gwneud rhodd o becynnau Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar yn 27 mis oed. Maen nhw wedi'u cynnwys mewn cysylltiadau sydd wedi'u trefnu dan Raglen Plant Iach Cymru.

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Mae Dechrau Da yn fwy na phecyn ffisegol ...

- Mae'n rhaglen sy'n annog datblygiad cymdeithasol, iaith gynnar, sgiliau cyn-llythrennedd a chyfathrebu trwy fwynhau llyfrau, straeon a rhigymau.




BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Mae Dechrau Da yn fwy na phecyn ffisegol ...

- Rydyn ni eisiau i Ymwelwyr Iechyd ddefnyddio'r hyfforddiant a'r adnoddau hyn i sicrhau bod negeseuon Dechrau Da yn cael eu cyfleu i rieni a gofalwyr pan maen nhw'n derbyn eu pecynnau. Fe fydd yr anogaeth hon gan weithiwr proffesiynol y maen nhw'n ei barchu'n helpu i gynyddu gallu teuluoedd i gefnogi datblygiad cynnar eu plentyn trwy ddefnyddio llyfrau, straeon a rhigymau.
- Mae pob pecyn Dechrau Da yng Nghymru'n cynnwys llyfrau Saesneg a llyfrau dwyieithog. Gallwch chi gael gwybod sut i gyflwyno'r Gymraeg o enedigaeth yn https://cymraeg.gov.wales

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Manteision rhannu darllen yn gynnar

Nod Dechrau Da yw galluogi pob rhiant a gofalwr yng Nghymru i ysbrydoli cariad at lyfrau, rhigymau a straeon ymhlith babis a phlant.

**Pam fod hyn yn bwysig:**

Rhannwch yn bedwar grŵp ac ystyried effaith darllen yn gynnar ar y canlynol:

- Datblygiad cymdeithasol-emosiynol
- Datblygiad gwybyddol (cof, sylw, meddwl)
- Datblygiad ieithyddol
- Datblygiad corfforol

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Pecyn Dechrau Da Babi

- Beth ydych chi'n ei sylw am y llyfrau?
- Pam y byddai rhigymau'n bwysig yn yr oedran hwn?
- Sut allech chi ddefnyddio'r deunydd sy'n rhoi canllawiau yn y pecyn?
- Beth allai'r gwasanaethau llyfrgell ei gynnig i rieni newydd?




BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Y tu mewn i'r pecyn Dechrau Da Babi

Mae'r cynnwys wedi'i ddewis i apelio at fabis 6 mis oed a hŷn.

Mae'n cynnwys:

- 1 llyfr Saesneg
- 1 llyfr dwyieithog (Cymraeg/Saesneg)




BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Y tu mewn i'r pecyn Dechrau Da Babi

## Pam fod hyn yn bwysig:

**Dydy hi byth yn rhy gynnar i ddechrau rhannu llyfrau, straeon a rhigymau â'ch plentyn.**

- Mae'r llyfrau'n lliwgar ac mae ganddyn nhw ddelweddau bachog ac iaith syml y mae babis yn eu caru.
- Os nad ydy'r rhieni'n siarad Cymraeg, yna anogwch nhw i roi cynnig arni – mae yna recordiadau sain o'r llyfrau dwyieithog yn bookstart.org.uk/cymru

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Dalen Rigymau Laminedig

Mae’r ddalen hon yn cynnwys rhigymau Cymraeg a Saesneg i rieni/gofalwyr eu dweud gyda’u babi.

**Pam fod hyn yn bwysig**:

- Mae canu rhigymau a chaneuon gyda’ch gilydd yn hwyl, ac mae’n gallu chwarae rhan bwysig mewn datblygu iaith a sgiliau cyfathrebu plentyn.




BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Llyfryn Darllen gyda'ch plentyn

Mae'r llyfryn hwn yn ddwyieithog ac mae'n cynnwys awgrymiadau a chyngor ar rannu straeon, llyfrau a rhigymau, canllawiau ar ddewis llyfrau a gwybodaeth am lyfrgelloedd.

## Pam fod hyn yn bwysig:

- Mae'r daflen yn rhoi mwy o gyngor a gwybodaeth i rieni/gofalwyr am rannu llyfrau, straeon a rhigymau â babis, a dolenni i leoedd y gallan nhw ddod o hyd i ragor o wybodaeth.




BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Taflenni Canllawiau




Mae 'na Amser i Siarad, Gwrando a Chwarae

**Pam fod hyn yn bwysig:**

- Mae'r taflenni'n rhoi anogaeth ac awgrymiadau cyfeillgar i rieni/gofalwyr fel eu bod nhw'n neilltuo amser i siarad, gwrando a chwarae gyda'u plant i helpu â datblygiad iaith a sgiliau cyfathrebu eu plentyn.

Mae yna ragor o wybodaeth am ymgyrch Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref Llywodraeth Cymru yn: www.facebook.com/beginsathome

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Taflen llyfrgelloedd




Yn rhoi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am beth y mae llyfrgelloedd yn ei gynnig i deuluoedd, gan gynnwys gwybodaeth am amser rhigwm ac amser stori.

## Pam fod hyn yn bwysig:

- Mae llyfrgelloedd yn lleoedd gwych i rieni newydd gael gwybodaeth a chefnogaeth a gwneud ffrindiau newydd mewn digwyddiadau amser rhigwm ac amser stori.

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Cyngor ar gyfer gwneud rhodd o becyn Dechrau Da Babi

**Trafodwch** y llyfrau â'r rhiant. Gofynnwch iddyn nhw a ydyn nhw'n darllen neu'n canu rhigymau a chaneuon i'w babi.

- Os ydyn nhw, trafodwch beth y maen nhw'n ei wneud a beth sy'n gweithio iddyn nhw. Efallai y byddwch chi eisiau eu hannog nhw i ddarllen yn rheolaidd, datblygu trefn ddarllen/rigymu neu...
- Os nad ydyn nhw, popeth yn iawn! Nawr ydy'r amser i ddechrau.

**Esboniwch** sut y mae darllen yn uchel a rhannu llyfr yn gallu cyfrannu at feithrin perthynas agos, ac at ddatblygiad cymdeithasol-emosiynol, lleferydd ac iaith.

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Cyngor ar gyfer gwneud rhodd o becyn Dechrau Da Babi

Byddwch yn **fodel** o sut y gellir rhannu llyfr â'r babi fel bod rhieni/gofalwyr yn gallu gweld ymateb y babi. Esboniwch fod y babi'n gallu gweld a chlywed. **Mae defnyddio'r pecyn i fachu sylw'r babi yn ystod eich ymweliad yn un o'r pethau mwyaf defnyddiol y gallwch chi ei wneud!**

**Awgrymwch** sut i sefydlu trefn ddarllen – mae neilltuo rhyw 10 munud bach y dydd ar ôl bath, cyn gwely neu tra bo cinio'n goginio, neu ddod o hyd i amser tawel i gwtsio i rannu llyfr o fudd i'r babi a'r rhieni. Helpwch nhw i nodi beth allai weithio iddyn nhw.

**Cofiwch TEMA:**

**Trafod**
**Esbonio**
**Modelu**
**Awgrymu**

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar

Yr argymhelliad ydy rhoi pecynnau Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar yn ystod yr archwiliad 27 mis.

Dylai'r teuluoedd fod wedi derbyn pecyn Dechrau Da Babi pan oedd eu babi'n 6 mis oed a dylen nhw fod wedi cael eu hannog i sefydlu trefn ddarllen syml. Mae pecyn y Blynyddoedd Cynnar yn gallu cefnogi teuluoedd i adeiladu ar y drefn hon neu mae'n rhywbeth arall i'w hannog i ddechrau darllen gyda'i gilydd yn rheolaidd..




BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar

- Sut ydych chi'n meddwl y byddai'r cynnwys yn y pecyn yn wahanol i'r cynnwys yn y pecyn Babi?
- Beth fyddech chi eisiau ei weld o blentyn pan mae'n 27 mis oed o ran datblygiad cymdeithasol-emosiynol, gwybyddol, ieithyddol a chorfforol?
- Sut fyddech chi'n cyflwyno'r pecyn yn wahanol y tro hwn?




BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Y tu mewn i becyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar

## Pam fod hyn yn bwysig:

- Mae pecyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar yn rhodd i'r plentyn, felly gallwch chi ei roi iddyn nhw'n uniongyrchol a'u helpu i'w agor a mynd trwyddo. Mae'r bag wedi'i ddylunio i blantos bach ei ddal ac mae'n ddelfrydol iddyn nhw ei gario eu hunain.
- Gallwch chi annog teuluoedd i fynd â'u bag Dechrau Da gyda nhw i'r llyfrgell i'w lenwi â llyfrau i fynd â nhw adref.





BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen


# Llyfrau

Mae'r rhain wedi'u dethol i fod yn briodol i oedran plantos bach. Mae'r llyfrau'n lliwgar ac yn fachog a gellir eu mwynhau drosodd a throsodd.

**Pam fod hyn yn bwysig**:

- Mae treulio cwta 10 munud yn cyd-ddarllen bob dydd yn helpu'ch plentyn i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, ac mae'n gallu eu helpu nhw i dyfu i ddod yn ddysgwyr hyderus, hapus
- Os nad ydy teuluoedd yn siarad Cymraeg, gallan nhw wrando ar y llyfr yn y Gymraeg yn www.bookstart.org.uk/cymru




BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Llyfryn Darllen gyda'ch plentyn 18-36 mis

## Pam fod hyn yn bwysig:

Mae'r daflen yn cynnwys awgrymiadau ynglŷn â sut i ddarllen gyda phlentyn bach a lle i ddod o hyd i ragor o wybodaeth

- Tudalen 6-7 'Edrychwch ar y lluniau a dechreuwch siarad amdanyn nhw'




BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Llyfryn Darllen gyda'ch plentyn 18-36 mis

## Pam fod hyn yn bwysig:

- Os ydych chi'n gwneud rhodd o'r pecyn yn ystod asesiad SoGS, fe allech chi ddefnyddio'r delweddau hyn i helpu i asesu gallu'r plentyn i nodi manylion o gwestiynau, dangos dealltwriaeth, adnabod lliwiau a gwrthrychau, a chyfathrebu'r hyn y maen nhw'n ei weld.

- Fe allech chi hefyd ddefnyddio'r tudalennau hyn i ddangos sut i ddarllen i blentyn bach – edrych ar y lluniau gyda'ch gilydd, gofyn cwestiynau, ceisio dyfalu beth allai ddigwydd nesaf.




BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Pypedau Bys Arth Dechrau Da

Gall teuluoedd ddefnyddio'r pypedau hyn i ddod â stori'n fyw trwy actio straeon a dawnsio a neidio dros y tudalennau.




## Pam fod hyn yn bwysig:

- Mae'r pypedau'n cefnogi menter 'Mae 'na amser i ddarllen' a gellir eu defnyddio i helpu i ddatblygu sgiliau gwrando a siarad.

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Taflen llyfrgelloedd

Mae'r daflen hon yn annog rhieni i fynd draw i'w llyfrgell a rhannu llyfrau â'u plentyn.

**Pam fod hyn yn bwysig**:

- Gall teuluoedd fenthyca llyfrau yn rhad ac am ddim, mynychu digwyddiadau sy'n addas i blant a dod o hyd i lyfrau sy'n rhoi help a chyngor ar ddelio â stranciau, y drefn gysgu, bwyta'n ffyslyd ac ati.







BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Yn Barod i Ddysgu – pecyn gwybodaeth am ddechrau'r ysgol

Pecyn o adnoddau â chyngor a chanllawiau i baratoi plant ar gyfer yr ysgol, gan gynnwys siart cynnydd a sticeri 'Paratoi i ddysgu'.

## Pam fod hyn yn bwysig:

- Pan mae babis yn 27 mis oed, gall teuluoedd ddechrau annog annibyniaeth eu plentyn trwy eu haddysgu sut i wisgo, bwyta ac ymolchi – sgiliau y bydd eu hangen arnyn nhw pan fyddan nhw'n dechrau'r ysgol.

www.facebook.com/beginsathome

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Cyngor ar gyfer gwneud rhodd o becyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar

- **Trafodwch** drefn ddarllen y teulu – gofynnwch i'r rhiant pryd y maen nhw'n darllen, beth ydy hoff lyfr y plentyn?  Os nad oes gan deuluoedd unrhyw lyfrau yn y cartref, fe allech chi ofyn sut y gwnaeth y plentyn fwynhau llyfrau Dechrau Da Babi, a'u cyfeirio at eu llyfrgell leol fel lle gwych i ddewis llyfrau i'w mwynhau gyda'i gilydd
- **Esboniwch** fod straeon, llyfrau a rhigymau'n gallu helpu datblygiad plentyn – mae eu cynnwys yn y drefn bob dydd yn gallu helpu eu plentyn i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i fwynhau ysgol

BookTrust Cymru
Getting children reading  Ysgogi plant i ddarllen

# Cyngor ar gyfer gwneud rhodd o becyn Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar

- Byddwch yn **fodel** o sut i ddewis llyfr a dangoswch sut y gallen nhw ddarllen gyda'i gilydd – gofynnwch i'r rhiant eistedd gyda'r plentyn, trafod y lluniau, a'r lliwiau. Gwnewch synau anifeiliaid neu leisiau doniol i ddod â'r stori'n fyw ac i wneud i'r plentyn chwerthin.
- **Awgrymwch** fod y rhieni'n annog y plentyn i ddweud y stori – beth sy'n digwydd yn y lluniau? Beth y maen nhw'n meddwl fydd yn digwydd nesaf?

**Cofiwch TEMA:**

**Trafod**
**Esbonio**
**Modelu**
**Awgrymu**

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Ymwelwyr iechyd yn ' dangos a dweud ' ffilmiau

Mae ymwelwyr iechyd yn dangos cynnwys y pecynnau ac yn rhoi cynghorion a chyngor

[Ffilm pecyn babi]

[Ffilm pecyn blynyddoedd cynnar]



BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Cwis Chwim

[Cwis Ymwelwyr Iechyd]

BookTrust Cymru
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

# Gwasanaethau llyfrgell

Fideo Llyfrgell

- Gall Ymwelwyr Iechyd ddwyn sylw teuluoedd i'w llyfrgell leol a nodi pa mor bwysig ydy hi eu bod nhw'n codi allan pan mae eu babis yn fach, er mwyn cefnogi rhieni newydd a allai fod yn ei chael hi'n anodd sefydlu trefn bob dydd neu sydd angen cefnogaeth gyfeillgar gan rieni eraill.

Gallwch chi ddod o hyd i'ch llyfrgell leol yn https://llyfrgelloedd.cymru